CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 12 MEHEFIN 2008 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr P J Wood (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Y Parch H M Davies	Mr. D Carr
	Mrs. Liza Brough
	Mrs. Abbie Prescott-Bird

Croesawodd y Cadeirydd Mr Wood i'r cyfarfod a'i longyfarch ar ei benodi yn aelod ac yn ddarpar gadeirydd y Comisiwn.

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd. Nododd y Comisiwn fod rhestr o fuddiannau Mr Wood wedi'i chyflwyno i'r Ysgrifenyddiaeth a byddai'r cofnod o Fuddiannau Aelodau yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.

2. PENODI DIRPRWY GADEIRYDD

2.1 Enwebodd y Cadeirydd Mr Wood fel y Dirprwy Gadeirydd newydd ac eiliwyd hyn gan Y Parch Davies. **Cytunwyd** mai Mr Wood fyddai'r Dirprwy Gadeirydd newydd.

2.2 Enwebodd y Cadeirydd Y Parch Davies fel Cadeirydd newydd y pwyllgor Archwilio, ac eiliwyd hyn gan Mr Wood. **Cytunwyd** mai'r Parch Davies fyddai Cadeirydd newydd Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn.

3. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 24 EBRILL 2008

3.1 Cytunwyd â'r rhain.

4. MATERION YN CODI

Arolwg Cymunedol Môn

4.1 Nodwyd bod y Comisiwn yn parhau i aros am ymateb oddi wrth Ganolfan Bedwyr ynghylch eglurhad ar ddilysrwydd cyfarwyddyd y cyn Ddirprwy Gadeirydd i gyfieithwyr y Comisiwn ynglŷn â gwaith a wnaed ar adroddiad cynigion Terfynol Môn ac unrhyw waith cyfieithu a wneir ar ran y Comisiwn yn y dyfodol.

Cofrestr Risgiau – Trosglwyddo system TG y Comisiwn

4.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd fod yr Isadran Noddi wedi cymryd rhan i geisio symud ymlaen trosglwyddo cyfarpar TG y Comisiwn. **Cytunwyd** pe na fyddai unrhyw ateb

ymarferol yn amlwg erbyn cyfarfod nesaf y Comisiwn, yna byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog.

Etholiadau i Awdurdodau Lleol Cymru

4.3 Nododd Y Comisiwn sylwadau a wnaed gan yr Isadran Noddi yn ei hateb i Gyngor Sir Môn ynghylch amseriad cyhoeddi Adroddiad a Chynigion Arolwg Cymunedol Môn gan y Comisiwn. Roedd y Comisiwn o'r farn gan ei fod wedi gweithredu yn unol â'r cyfarwyddyd a gawsant oddi wrth ei ymgynghorydd cyfreithiol, fod sylwadau'r Isadran Noddi yn amhriodol. **Cytunwyd**, er y byddai'r Comisiwn yn parhau i ddilyn cyngor cyfreithiol, byddai unrhyw gyfnodau etholiad yn cael eu cynnwys yn yr amserlen arolwg pe bai modd gwneud hynny. **Cytunwyd** codi'r mater hwn yn ystod y cyfarfod nesaf gyda'r Gweinidog.

Cynllun Gweithredol

4.4 Dywedwyd bod y Cynllun Gweithredol wedi'i ddiwygio er ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol iddo. **Cytunwyd** i gynnwys y Cynllun Gweithredol ar Agenda cyfarfod mis Gorffennaf.

Arolygon Cymunedol

4.5 Dywedwyd bod arolygon wedi cychwyn ar gyfer cymunedau ym Mwrdeistrefi Sirol Blaenau Gwent a Bro Morgannwg.

5. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 7 CHWEFROR 2008

5.1 Dywedwyd nad oedd geiriad cofnodion cyfarfod mis Chwefror y Comisiwn yn adlewyrchu'n glir beth a benderfynwyd gan Aelodau o ran Arolwg Cymunedol Caerffili. **Cytunwyd** newid geiriad y cofnod fel ei fod yn adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn fwy cywir.

6. AROLWG CYMUNEDOL CONWY – ADRODDIAD CYMUNEDOL DRAFT

6.1 Dywedwyd bod llythyr wedi ei anfon i Gyngor Cymuned Conwy yn gofyn am eglurhad pellach am faint Coedwig Marl. Roedd y Comisiwn bellach wedi cael ymateb oddi wrth Gyngor Cymuned Conwy a oedd wedi nodi'n glir arwynebedd Coedwig Marl ar fap a ddarparwyd gan y Comisiwn. Dangosodd yr hyn a nodwyd ar y map fod Coedwig Marl yn fwy nag yr ystyriwyd o'r blaen. **Cytunwyd** ei bod yn ddymunol i'r oll o ardal Coedwig Marl gael ei lleoli yng Nghymuned Conwy ac y caiff adroddiad y Cynigion drafft eu diwygio yn unol â hynny.

6.2 Dywedwyd bod y Comisiwn wedi cael llythyr pellach oddi wrth Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd y llythyr yn ymwneud â neges e-bost oddi wrth y Cynghorydd Emlyn Thomas, Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Adran Etholiadol Trefriw, ynghylch Cymuned Dolgarrog. Datganodd y neges e-bost fod y Cyngh. Thomas wedi cael y cyfle yn ystod Diwrnod Arfarnu'r Pentref ar 26 Ebrill 2008 yn Nhrefriw i ymgynghori â rhwng 150 a 200 o breswylwyr ynglŷn â'u barn am gyfuno Cymunedau Trefriw a

Dolgarrog. Dywedodd yr holl breswylwyr a lenwodd ffurflen na i'r cynnig. Dywedodd y Cyngh. Thomas hefyd mai'r un fyddai'r canlyniad ar y mater hwn pe cynhelir ymgynghoriad gan y Comisiwn ar gyfer y ddwy Gymuned. Dywedwyd hefyd bod y Comisiwn wedi cael canlyniadau etholiadau 1 Mai 2008 ar gyfer Cyngor Cymuned Dolgarrog a dim ond 6 o'r 9 sedd a lenwyd. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad Cynigion drafft yn cynnwys y cynnig y dylid uno Cymunedau Trefriw a Dolgarrog ond cedwir wardiau presennol Trefriw a chynigir hefyd y byddai Cymuned bresennol Dolgarrog yn ffurfio ward yn y gymuned newydd.

7. AROLWG CYMUNEDOL CAERFFILI – ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

7.1 Nododd y Comisiwn sylwadau Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am y newid arfaethedig rhwng Cymunedau Crymlyn a Phen-maen, a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf. Er nad oedd y Cyngor yn cefnogi'r cynnig gwreiddiol roeddent wedi cynnig newid arfaethedig a fyddai'n golygu rhan lai o Groes-pen-maen yn cael ei throsglwyddo i Ben-maen o Grymlyn. **Cytunwyd** er y byddai ffin arfaethedig y Cyngor yn cael ei nodi yn yr Adroddiad Cynigion Drafft a cheisir barn am y cynnig, ni wneir unrhyw gynnig i newid y ffin rhwng Crymlyn a Phen-maen ar hyn o bryd.

7.2 Nododd y Comisiwn nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cefnogi'r newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng Cymunedau Argoed a Phen-maen. Gan fod y newid hwn a awgrymwyd wedi'i nodi yn yr Adroddiad Cynigion Drafft ond nid oedd yn cael ei roi gerbron fel cynnig, nid oedd angen unrhyw gam gweithredu heblaw cofnodi gwrthwynebiad y Cyngor yn nhestun yr Adroddiad.

7.3 Nododd y Comisiwn nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cefnogi'r newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng Cymunedau Y Coed Duon a Phen-maen. Roedd y Cyngor o'r farn y gallai'r cynnydd yn nifer yr etholwyr ar gyfer Y Coed Duon olygu cynnydd annerbyniol ym maich gwaith cynghorwyr lleol. Roedd y Comisiwn o'r farn bod y ffin arfaethedig yn briodol ac wedi'i diffinio'n dda ac ni ddylai newidiadau ôl-ddilynol i'r etholwyr cymuned bennu a ddylid mabwysiadu newid i ffin ai peidio pe bai newid o'r fath yn ymddangos ei fod er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw'r newid arfaethedig i'r ffin rhwng Cymunedau Y Coed Duon a Phen-maen fel rhan o'u Cynigion Drafft.

7.4 Nododd y Comisiwn nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig i'r ffiniau rhwng Cymunedau Pengam, Maesycwmer, Pontllanfraith, Cefn Fforest, Caerffili, Y Fan a Rhisga. Nodwyd pryder y Cyngor ynglŷn â'r ffaith y gallai newid i'r ffin rhwng Cymunedau Pengam a Chefn Fforest arwain at rywfaint o ddryswch rhwng ardaloedd heddlu, fodd bynnag, ni ystyriwyd y byddai hyn yn creu unrhyw anawsterau gwirioneddol pe newidir y ffin.

7.5 **Cytunwyd** diwygio testun yr Adroddiad i ddangos yn well y meini prawf a ddefnyddir wrth bennu a fyddai newid a awgrymwyd i ffin yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad er mwyn annog sylwadau yn hytrach nag fel newid arfaethedig.

7.6 Nodwyd nad oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hyd yn hyn wedi rhoi ystadegau etholiadol ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau i'r Comisiwn ac felly ni allai'r Ysgrifenyddiaeth asesu'r newidiadau ôl-ddilynol i'r trefniadau etholiadol cymunedol. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn mynd ar drywydd y ffigurau etholiadol ac adrodd yn ôl i Aelodau ynghylch unrhyw effaith sylweddol y

gallent gael ar y Cynigion. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad Cynigion Drafft yn cael ei fabwysiadu yn amodol ar y newidiadau a drafodwyd a derbyn y ffigurau etholiadol oddi wrth y Cyngor.

8 AROLWG CYMUNEDOL PEN-Y-BONT AR OGWR – ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

8.1 Dywedwyd bod y Comisiwn bellach wedi derbyn y ffigurau etholiadol ar gyfer yr ardaloedd hynny lle byddai newidiadau i ffiniau cymuned yn effeithio ar niferoedd etholwyr. Roedd y Comisiwn yn wreiddiol, wedi cytuno i ailalinio'r ffin rhwng Cymunedau Merthyr Mawr a Phen-y-bont ar Ogwr, fel bod yr ardal a adweinir fel Ystad Island Farm yn cael ei chyfuno a'i throsglwyddo i Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr fel yr awgrymwyd yn wreiddiol gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y Comisiwn yn tueddu tuag at gyfuno'r ystâd ond byddai hyn yn golygu y byddai Cymuned Merthyr Mawr yn gostwng i 145 o etholwyr a fyddai'n codi cwestiwn ynghylch dichonoldeb. Cynnig arall fyddai i'r ystâd gyfunol gael ei throsglwyddo i Ben-y-bont ar Ogwr fel y cynigiwyd yn wreiddiol, ond cyfuno ardal Cymuned Trelales a Merthyr Mawr gan eu bod ar hyn o bryd wedi'u cyfuno yn adran etholiadol Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr. Dewis arall fyddai symud yr ystâd yn gyfan gwbl ynghyd â darn o dir sy'n gyfagos i Ferthyr Mawr o Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr i Ferthyr Mawr. **Cytunwyd** anfon llythyr yn amlinellu'r tri dewis i Gyngor Cymuned Merthyr Mawr, Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Cymuned Trelales a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan ofyn am eu barn am y dewisiadau awgrymedig.

9. AROLWG FFINIAU POWYS – MERTHYR TUDFUL – ADRODDIAD CYNIGION TERFYNOL

9.1 Dywedwyd y ceisiwyd cyngor cyfreithiol ar ddrafft yr adroddiad ac o ganlyniad gwnaed amryw o fân newidiadau. Nododd y Comisiwn y cyngor a dderbyniwyd. **Cytunwyd** y dylid cyhoeddi'r adroddiad yn ei ffurf bresennol fel yr Adroddiad Terfynol.

10. AROLWG CYMUNEDOL ABERTAWE – ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

10.1 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac oddi wrth gynghorydd lleol ers y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi cefnogi newidiadau arfaethedig y Comisiwn i'r ffiniau rhwng Cymunedau Cwmbwrla, Penderi, Gorseinon, Pengelli-ddrain a Waungron, Llwchwr and Penlle'r-gaer a bod sylwadau'r Cyngor ynghyd ag awgrymiadau'r cynghorydd lleol wedi'u hymgorffori yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

10.2 Gwnaethant ystyried tri newid a awgrymwyd i'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr a gyflwynwyd gan y cynghorydd lleol. Roedd yr awgrym cyntaf yn debyg i gynnig y Comisiwn fel rhan o'u Cynigion Drafft ond roedd yn cynnwys trosglwyddo ardal mwy o faint Llwchwr mewn i Orseinon. Nodwyd bod yr ardal estynedig hon yn cynnwys anheddau yr oedd mynediad iddynt drwy Gymuned Llwchwr ond bod cynnig y Comisiwn dim ond yn cynnwys anheddau y gellid cael mynediad iddynt

drwy Orseinon. **Cytunwyd** bod cynnig y Comisiwn yn well na chynnig y cynghorydd lleol ac fe'i cedwir yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

10.3 Nododd y Comisiwn yr awgrym a wnaed gan y cynghorydd lleol am newid i'r ffin rhwng Gorseinon a Llwchwr yng nghyffiniau West Street. Roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd y ffin awgrymedig yn welliant sylweddol ar y ffin bresennol na bod y ffin bresennol yn creu anghysondeb ond yn hytrach ei bod yn unol â natur gyffredinol y ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr. **Cytunwyd** na fyddai awgrym y cynghorydd lleol yn cael ei gynnig yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

10.4 Nododd y Comisiwn yr awgrym a wnaed gan y cynghorydd lleol am newid i'r ffin rhwng Gorseinon a Llwchwr yng nghyffiniau cyn weithfeydd dur Bryngwyn. Dywedwyd bod ymweliad safle a gynhaliwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth wedi cadarnhau bod nifer sylweddol o ddatblygiadau newydd wedi'u hadeiladu yn ddiweddar yn yr ardal uwchben ac islaw'r ffin awgrymedig. Nododd y Comisiwn fod y cynllun ffyrdd presennol yn ymddangos y byddai mynediad i'r anheddau newydd yn fwy tebygol o ddod o Orseinon ac felly eu barn oedd y byddai'r ailalinio'r ffin arfaethedig yn amhriodol gan y byddai'n golygu trosglwyddo rhan sylweddol o'r datblygiad newydd i Lwchwr. **Cytunwyd** na fyddai awgrym y Cynghorydd lleol yn cael ei gynnig yn yr Adroddiad Cynigion Drafft. Nododd y Comisiwn hefyd fod Afon Lliw yn gwahanu'r ardal o amgylch cyn weithfeydd dur Bryngwyn a'r datblygiad newydd. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid ailalinio'r ffin rhwng Cymunedau Gorseinon a Llwchwr yn yr ardal hon fel ei bod yn dilyn Afon Lliw. **Cytunwyd** y byddai'r ailaliniad hwn o'r ffin yn cael ei gynnwys fel cynnig yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

10.5 **Cytunwyd** y byddid yn mabwysiadu'r Adroddiad Cynigion Drafft yn amodol ar y newidiadau a drafodwyd a derbyn y ffigurau etholiadol oddi wrth y Cyngor.

11. AROLWG PELLACH WRECSAM – YSTYRIAETH BELLACH O GYNRYCHIOLAETHAU CYCHWYNNOL AC ADRODDIAD CYNIGION DRAFFT

11.1 Ystyriodd y Comisiwn gynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn ymateb i gam cychwynnol Arolwg Pellach Cymuned Wrecsam. Nodwyd bod yr holl gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn gwrthwynebu cynnwys holl ystâd Llwyn Onn yng Nghymuned Parc Caia, ar wahân i'r un oddi wrth Gyngor Cymuned Parc Caia. Nododd y Comisiwn bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam nawr yn cefnogi cynnwys ystâd Llwyn Onn yng Nghymuned Abenbury gan nad oeddent wedi gwrthwynebu yn ffurfiol i gynnwys Llwyn Onn yng Nghymuned Parc Caia.

11.2 Roedd y Comisiwn o'r farn gan fod rhinwedd i'w cynnig gwreiddiol sef cynnwys ystâd Llwyn Onn yn ardal Tref Wrecsam, roedd bellach ffactorau sylweddol i wrthwynebu hynny, y mwyaf amlwg o'r rhain oedd diffyg cefnogaeth oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a phryderon ynghylch dichonoldeb Cymuned Abenbury pe trosglwyddid ystâd Llwyn Onn allan ohono.

11.3 **Cytunwyd** y byddai'r Cynigion Drafft yn cynnig cynnwys holl Ystad Llwyn Onn yng Nghymuned Abenbury. **Cytunwyd** er mwyn mynd i'r afael yn llwyr â'r cwestiwn am ddichonoldeb Cymuned Abenbury yn y dyfodol y cynigir cyfuno Cymuned Abenbury â Chymuned Is-y-coed.

12. AMSERLEN AROLYGON

12.1 Trafododd y Comisiwn ddiwygiadau i'r Amserlen Arolygon a gwnaed y newidiadau canlynol:

- Arolwg Cymunedol Caerffili – Estynnwyd y dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Cynigion Drafft i Awst 2008.
- Arolwg Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr – Estynnwyd y dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Cynigion Drafft i Awst 2008.
- Arolwg Cymunedol Abertawe – Estynnwyd y dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad Cynigion Drafft i Awst 2008.

13. ADRODD AM DDIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â DATA PERSONOL

13.1 Dywedwyd bod yr arweiniad hwn ar sut i adrodd am ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol fel rhan o'r Sylwadau Rheoli i'r Cyfrifon Blynyddol wedi'i gyhoeddi gan Swyddfa'r Cabinet. Nid oedd y Comisiwn yn cadw ond ychydig o ddata personol yn electronig ac nid oedd unrhyw ddigwyddiadau i roi gwybod amdanynt. Nododd y Comisiwn yr adroddiad.

14. ADRODDIAD CYLLID AM Y FLWYDDYN YN GORFFEN 2007-08

14.1 Nododd y Comisiwn yr adroddiad cyllid a'r sefyllfa ar ddiwedd 2007-08. Nodwyd bod swm y tanwariant, sef £26,737 yn agos i'r swm tanwario a amcangyfrifwyd.

15. UNRHYW FATER ARALL

15.1 Nodwyd bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi cytuno cyflwyno argymhellion y Comisiwn ar newidiadau i ffiniau cymunedol yn Rhondda Cynon Taf, fel y'u nodwyd yn yr Adroddiad a'r Cynigion a gyflwynwyd gan y Comisiwn.

15.2 Nodwyd bod y Comisiwn wedi derbyn Cynigion Terfynol oddi wrth Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ynghylch arolwg o gymunedau yn ardal yr awdurdod. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad yn eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Comisiwn.

15.3 Dywedodd yr Ysgrifennydd fod y Comisiwn wedi derbyn llythyr ynghylch yr laith Gymraeg yn Ewrop a oedd gwahodd sylwadau oddi wrth y Comisiwn. Nododd y Comisiwn y cais a **chytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn ei ateb gan ddiolch iddynt am y llythyr, ond yn nodi gan fod y Comisiwn yn gorff annibynnol anwleidyddol, na fyddai'n briodol iddynt roi sylwadau ar faterion a allai fod iddynt oblygiadau gwleidyddol.

15.4 Gofynnodd y Comisiwn am ddiweddariad ar y Cyfarfod Agored Blynyddol gael ei gynnwys yn eitem ar agenda cyfarfod nesaf y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn paratoi adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfarfod nesaf.

15.5 Gofynnodd y Comisiwn i'r Ysgrifenyddiaeth baratoi'r wybodaeth angenrheidiol a phapurau ar gyfer y Cadeirydd newydd fel eu bod yn barod erbyn diwedd cyfnod penodi y Cadeirydd presennol. **Cytunwyd** y byddai hyn yn cael ei baratoi.

15.6 Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai'n ddefnyddiol pe bai arweiniad a rhestr termau iaith glir yn cael eu llunio ar gyfer arolygon cymunedol. Gallai hyn gynnwys sylwadau a chyngor oddi wrth Un Llais Cymru. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn paratoi dogfen i'r perwyl hwn.

16. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

16.1 Cytunwyd ar y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:

Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2008 am 10:45 a.m.
Dydd Llun 18 Awst 2008 am 10:45 a.m.
Dydd Mawrth 9 Medi 2008 am 10:45 a.m.
Dydd Iau 16 Hydref 2008 am 3:00 p.m.